

Annwyl Gyngherddwr,

Croeso'n ôl i Neuadd Dewi Sant.

Ar ran pawb yn yr oedfan, carwn ddiolch o galon i chi am ddal i'n cefnogi, mor werth chweil a thriw, yn enwedig dros y deunaw mis aeth heibio. Gobeithio eich bod yn fyw ac iach a'ch bod yn edrych ymlaen at ddod yn ôl yn ddiogel i Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru i gael blas ar ein dewis amrywiol o adloniant byw, y buom ni i gyd gymaint chwith ar ei ôl.

Rwyf wrth fy modd o ddweud bod ein Swyddfa Docynnau'n ailagor yn yr oedfan ddydd Llun 23 Awst 2021 (ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, hanner awr wedi naw tan bump o'r gloch, ac yn cau hanner awr ar ôl dechrau'r sioe ar ddiwrnodiau perfformiad). Yn cychwyn â Jimmy Carr nos Fawrth 31 Awst 2021, byddwn hefyd yn cyflwyno ein rhaglen lawn fel arfer. Gweler ein mesurau diogelwch COVID-19 diweddaraf: <https://www.neuaddewisantcaerdydd.co.uk/mesurau-diogelwch-covid-19/>

Os ad-drefnwyd eich sioe o ganlyniad i glo mawr COVID-19, bydd y tocynnau sydd gennych eisoes yn dal i fod yn ddilys i'r dyddiad newydd a does dim gofyn i chi wneud dim byd eto.

Fodd bynnag, a'r holl berfformiadau a hysbysebwyd bellach yn mynd yn eu blaenau, nid ydym erbyn hyn yn cynnig ad-daliadau i sioeau a byddwn yn mynd yn ôl at ein polisi arferol ailwerthu a chyfnewid yn ein Telerau ac Amodau, sydd i'w gweld yma: <https://www.neuaddewisantcaerdydd.co.uk/thelerau/>

Mae hyn yn adeg anodd iawn i ddiwydiant y celfyddydau. Y gefnogaeth wych mae ein cyngherddwyr yn dal i'w rhoi i ni ydi gwaed einioes yr oedfan ac mae'n hollbwysig o ran ymorol ein bod yn gallu cynnig i chi'r un dewis eang ac amrywiol o ddifyrrwch a pharhau ein gwaith cymuned a fawrbrisir. Petaech yn ystyried rhoi rhan o brisiau eich tocynnau, neu'r cyfan, gallwch wneud hyn ar lein drwy ymgofrestru yn eich cyfrif a dewis faint rydych am ei roi yn y ddolen ganlynol: <https://www.neuaddewisantcaerdydd.co.uk/cefnogwch-ni/>

Mae eich rhodd yn werth y byd i ni ac mae pawb yn Neuadd Dewi Sant yn ei gwerthfawrogi'n aruthrol.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi cyn bo hir.



Giles Ballisat
Rheolwr Neuadd Dewi Sant

